

Tîm Prosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
D/O yr Arolygiaeth Gynllunio
Eagle Wing 3/18, Temple Quay House, Temple Quay
Bryste
BS1 6PN

wylfa@planninginspectorate.gov.uk

At Sylw Mr Gareth Leigh

27 Ionawr 2021

Annwyl Mr Leigh,

Cais am orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd a seilwaith cysylltiedig yn Wylfa, Ynys Môn, Cymru (“Prosiect DCO Wylfa Newydd”) - Tynnu’r Cais yn Ôl

Cyfeiriaf at ein gohebiaeth flaenorol (22^{ain} Medi; 28^{ain} Medi; 18^{fed} Rhagfyr 2020) pan wnaethom ofyn am ohiriadau i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cais am brosiect DCO Wylfa Newydd. Diolch i chi a’ch tîm am eich amynedd dros y misoedd diwethaf yn hyn o beth.


Yn yr ohebiaeth flaenorol, cyfeiriais at drafodaethau â thrydydd partiön sydd wedi mynegi diddordeb mewn bwrw ymlaen â datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar safle Wylfa Newydd ar Ynys Môn, Cymru ar ôl i Hitachi Ltd. dynnu’n ôl. Er bod y trafodaethau hyn gyda nifer o bartiön wedi bod yn gadarnhaol ac yn galonogol o ran datblygu ffordd ymlaen, yn anffodus, nid ydynt wedi arwain at gynnig penodol a fyddai wedi galluogi i’r safleoedd gael eu trosglwyddo i endid datblygu newydd sy’n fodlon cymryd lle Hitachi Ltd.

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Hitachi ei fod yn gohirio’r prosiect ym mis Ionawr 2019, cyn cyhoeddi ei fwriad i dynnu’n ôl yn llwyr ym mis Medi 2020. Gan ystyried hyn, a’r diffyg polisi ariannu newydd gan Lywodraeth EM, mae Hitachi Ltd. wedi penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021. Yn anffodus, o ganlyniad i hyn, mae’n rhaid i ni dynnu’r cais a gyflwynwyd ar 1 Mehefin 2018 ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd yn ôl.

Nodwyd yn glir yn y Papur Gwyn ar Ynni diweddar fod Llywodraeth EM yn gweld rôl allweddol i bŵer niwclear yn nyfodol carbon isel y DU. Credwn fod safleoedd Wylfa Newydd ac Oldbury yn addas iawn ar gyfer adeiladu cyfleusterau niwclear newydd ac y byddent yn gallu cefnogi polisi ynni’r DU i raddau helaeth. Mae safle Wylfa Newydd, yn enwedig, yn parhau i elwa o ddegawd o fuddsoddi a datblygu ac mae’n rhy bwysig i’r agenda Sero Net a dyfodol economaidd Ynys Môn i’r cynnydd hwn gael ei wastraffu.

Bwriad Hitachi Ltd. nawr yw rheoli'r safleoedd sydd dan reolaeth ei is-gwmni, Hitachi Europe Limited. Bydd hyn yn cael ei wneud gan ystyried cynigion datblygu gan ddatblygwyr o'r sector cyhoeddus neu'r sector masnachol a allai ddangos diddordeb, a bydd Horizon yn parhau i gefnogi'r bwriad hwn tan ddiwedd mis Mawrth. Y tu hwnt i'r cyfnod hwn, bydd Hitachi Europe yn dal ar gael i ymateb i unrhyw bartion a allai fod yn awyddus i gymryd y safleoedd hyn drosodd.

Yn gywir,



Duncan Hawthorne

Prif Swyddog Gweithredol

Wylfa Newydd Nuclear Power Station Project Team
Secretary of State for Business, Energy & Industrial Strategy
C/O the Planning Inspectorate
Eagle Wing 3/18, Temple Quay House, Temple Quay,
Bristol
BS1 6PN

Sent via: wylfa@planninginspectorate.gov.uk

For the Attention of Mr Gareth Leigh

27th January 2021

Dear Mr Leigh,

Application for a development consent order for the construction and operation of a new nuclear power station and associated infrastructure at Wylfa, Anglesey, Wales (the “Wylfa Newydd DCO Project”) – Withdrawal of Application

I refer to our previous correspondence (22nd September; 28th September; 18th December 2020) where we requested deferrals to the Secretary of State’s determination of the Wylfa Newydd DCO project application. I am grateful to you and your team’s patience over the recent months in this regard.


In that previous correspondence I referred to discussions with third parties that have expressed an interest in progressing with the development of new nuclear generation at the Wylfa Newydd site in Anglesey, Wales following the withdrawal of Hitachi Ltd. Whilst these discussions with multiple parties have been positive and encouraging with regards to developing a way forward, they have not, unfortunately, led to any definitive proposal that would have allowed the transfer of the sites to some new development entity willing to replace Hitachi Ltd.

As you know Hitachi announced the suspension of the project in January 2019 and its intent to withdraw entirely in September 2020. In light of this and in the absence of a new funding policy from HM Government, Hitachi Ltd., has taken the decision to wind-up Horizon as an active development entity by March 31st 2021. As a result, we must now, regretfully, withdraw the application submitted on 1 June 2018 for the Wylfa Newydd DCO Project.

It was made clear in the recent Energy White Paper that HM Government sees a key role for nuclear power in the UK’s low carbon future. We believe the Wylfa Newydd and Oldbury sites are highly suitable for nuclear new build and remain capable of substantially supporting UK energy policy. The Wylfa Newydd site, in particular, continues to benefit from a decade of major investment and development and is too important to the Net Zero agenda and the economic future of Anglesey and North Wales, for that progress to be wasted.

It is now Hitachi Ltd's., intent to manage the sites under the control of its subsidiary Hitachi Europe Limited. This will be done with a view to considering development proposals from commercial or public sector developers who may come forward, and Horizon will continue to support this intent until the end of March. Beyond this period Hitachi Europe will remain available to respond to any parties who may have an interest in acquiring these sites.

Yours sincerely,



Duncan Hawthorne

Chief Executive Officer